

Cyfoethogi Datganiadau Ariannol: Goresgyn Rhwystrau Prisio Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Archwilio

Allbynnau o'r gweithdai ar yr 2il a'r 4ydd Rhagfyr 2025

Bu i'r gweithdy yma ddisgrifio prosiectau CIPFA sydd yn gweithio i sicrhau fod datganiadau ariannol llywodraeth leol yn roi'r wybodaeth mae defnyddwyr ei angen yn amserol, gan ganolbwyntio ar newidiadau i'r dull o fesur Eiddo, Offer a Chyfarpar ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Bu cyfle hefyd i drafod y rhwystrau wrth brisio, cyfrifo ac archwilio eiddo, offer a chyfarpar, yn ogystal a sut all priswyr, cyfrifwyr ac archwilwyr gafod datrysiadau sy'n arwain at sicrhau fod datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth amserol ac o safon. Mae'r ddogfen yma yn cynnwys rhai o'r pynciau a drafodwyd yn ystod y gweithdy.

Sut bydd y newidiadau o ran mesur eiddo, offer a chyfarpar yn effeithio ar baratoi datganiadau ariannol eich awdurdod?

- Angen ymgysylltu da rhwng timau cyllid a phriswyr
- Sicrhau bod dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn sy'n ofynnol ac ar beth y dylai fod yn seiliedig
- Mae'n bosibl bod timau cyllid a phriswyr yn wynebu mwy o waith a chyfrifoldeb, yn enwedig yn y tymor byr
- Gall hyn dynnu sylw o weithgareddau "gwerth ychwanegol" i briswyr
- Bydd angen i bob aelod o staff uwchsgilio yn 2025-26
- Ansicr sut y bydd mynegeion yn cael eu defnyddio ar gyfer gwahanol gategoriâu asedau
- Cwestiynau ynghylch pa ddyddiad y bydd angen defnyddio mynegeion ac amserlen rhyddhau mynegai

	• Pryderon ynghylch a yw cofrestrau a systemau asedau sefydlog wedi'u sefydlu i ymdrin â'r allbynnau newydd • Bydd angen amser sylweddol i fewnbynnu gwybodaeth i'r systemau hynny • Yn y tymor canolig mae potensial ar gyfer llai o gostau a llai o ymgysylltu â phriswyr allanol os bydd prosesau yn cael eu symleiddio • Mae cwestiynau ynglŷn â chydymffurfio â'r Cod, yn enwedig ar gyfer cyrff sydd â rhaglenni treigl ansafonol
Beth yw'r rhwystrau mwyaf y mae eich awdurdod yn eu hwynebu o ran cael gwybodaeth brisio amserol a chywir ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar?	• Fel y nodwyd uchod, mae'n bosibl y bydd angen mwy o waith yn y flwyddyn gyntaf, gan fod yr amser cyn 31 Mawrth 2026 yn gyfyngedig • Mae hyn ynghyd ag oedi wrth gael gwybodaeth i briswyr a materion capasiti staff • Mae archwiliadau blwyddyn flaenorol wedi'u gohirio yn gwneud hyn yn fwy amlwg • Mae'n debygol y bydd problemau o ran dod o hyd i'r mynegai cywir a chael gafael arni • Mae diffyg mynegeion ar gyfer mathau penodol o asedau (e.e. tir a ffermydd) • Ar hyn o bryd mae ansicrwydd ynghylch sut y dylai mynegeion lleol fod ac a fydd mynegeion priodol ar gael ar gyfer pob ardal • Er bod mynegeio yn gweithio yn y GIG, mae amrywiaeth lawer ehangach o asedau yng nghyrrff Llywodraeth Leol • Mae'r costau (yn enwedig i'r rhai sy'n defnyddio prisiwyr allanol) i weithredu'r newidiadau yn anhysbys ar hyn o bryd • Mae'n anodd recriwtio i dimau prisio mewnol, felly mae cynllunio olyniaeth yn anodd • Pan ddefnyddir prisiwyr allanol, gall fod haen ychwanegol o gymhlethdod ac amser sy'n ofynnol wrth gyfathrebu • Fel y nodwyd uchod, mae'n debygol y bydd heriau gydag chyfannu mewn systemau fel CIPFA Asset Manager a deall sut y bydd meddalwedd yn prosesu mynegeion • Mae rhai pryderon ynglŷn â chyflawnrwydd data asedau sylfaenol • Bydd angen meintiau sylweddol o ddata a thystiolaeth

	• Mae mwy o graffu ar amcangyfrifon gan archwilyr allanol, ond gall fod yn anodd i dimau cyllid adolygu'r wybodaeth a dderbyniwyd gan briswyr.
Pa gamau neu adnoddau ymarferol sydd gennych chi, neu a ydych chi'n bwriadu eu rhoi ar waith i symleiddio'r broses o brisio, paratoi ac archwilio cyfrifon?	• Mae angen pwyslais ar ymgysylltu'n gynnar a pharhaus â phriswyr ac archwilyr, cytuno ar amserlenni a dysgu o flynyddoedd blaenorol • Mae angen i dimau cyllid gytuno â phriswyr ar y mynegeion priodol i'w defnyddio • Mae CIPFA wedi darparu canllawiau ychwanegol ym Mwletin 22 ynghylch ymarferoldeb gweithredu • Mae angen i awdurdodau benderfynu ar eu dull gweithredu (h.y. ailddatgan cymesur neu ddileu) • Dylid cynnwys digon o amser mewn amserlenni i wirio cyfrifiadau • Byddai profi cynnar ac interim yn ddefnyddiol, ac awgrymwyd rhaglen dreigl o waith archwilio • Dylai archwilyr geisio trafod / cwrdd yn uniongyrchol â phriswyr lle bo hynny'n bosibl, fel y gellir esbonio dyfarniadau a dogfennau • Ystyried newidiadau mewn meddalwedd neu symud tuag at raglenni ailbrisio treigl. • Potensial i derfynau amser cronfeydd wrth gefn gael eu dwyn ymlaen • Mae'n bwysig sicrhau bod prosesau cyson yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cofnodi'r rhesymeg dros ddewis mynegeio.

Sut gall prisiwyr, cyfrifwyr ac archwilwyr weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd i oresgyn yr heriau hyn?

- Sefydlu gweithgorau ar gyfer prisiwyr awdurdodau lleol (potensial ar gyfer cyfarfodydd timau)
- Defnyddio Grŵp Cydweithredu Gogledd Cymru
- Cydweithio rhwng yr Heddluoedd
- Defnyddio grwpiau presennol (fel y Prif Gyfrifyddion)
- Annog cysylltiadau gweithio da rhwng timau cyllid a phriswyr
- Cyswllt uniongyrchol rhwng prisiwyr ac archwilwyr i ddatrys ymholiadau ac esbonio'r rhesymeg dros benderfyniadau.
- Awdurdodau lleol yn rhannu dulliau
- Awdurdodau lleol o bosibl yn gweithio gyda'i gilydd lle bo angen i gaffael arbenigedd allanol
- Sicrhau cysondeb ar draws timau Archwilio Cymru
- Parhau i ymgysylltu â CIPFA (h.y. canllawiau, mynegeion)
- Diffinio rolau'n glir ac yn gynnar a blaengynllunio